WALES

# Llwybr pili-pala Gogledd Gŵyr

Darganfyddwch Welshmoor, paradwys gudd i fywyd gwyllt. Dros y blynyddoedd, mae dros 25 o wahanol rywogaethau o bili-pala wedi'u gweld yn yr ardal warchodedig hon. Mae'n un o'r llefydd gorau yn Ewrop i weld brith y gors, sy'n bili-pala prin iawn, a'r brithribin gwyrdd, sy'n fwy cyffredin ond llawn mor drawiadol.

## Gair o gyngor ar wylio pili-palod

Mae'r tywydd yn ffactor pwysig iawn wrth geisio gwylio pili-palod. Mae diwrnodau poeth, heulog heb lawer o wynt yn ddelfrydol. Mae'r amseru hefyd yn bwysig ar gyfer rhywogaethau fel brith y gors, sydd â thymhorau hedfan byr iawn. Mae rhagor o wybodaeth am amseru eich ymweliad i'w gweld ym mhob cam.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Maes parcio Welshmoor (Cyf. grid SS51924)

Map AO: OS Explorer 164

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Cynefin rhostir gwlyb heb lwybrau wedi'u marcio. Gwisgwch sgidiau cerdded cadarn. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Gan fod anifeiliaid yn pori, cadwch gŵn ar dennyn ac o dan reolaeth agos bob amser.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1 (km: 1.6)

Mynediad: Heriol

Hyd: 20 munud - 1 awr

## Tirwedd

Mae'r safle hwn yn gynefin rhostir gwlyb a all fod yn gorsiog mewn mannau. Mae'r llystyfiant yn gymysgedd o rug, eithin, mieri a rhedyn a all wneud symud o gwmpas yn lletchwith mewn mannau.

## Cyfanswm y camau: 5

Man cychwyn: Maes parcio Welshmoor (Cyf. grid SS51924)

1. Gan ddechrau yn yr ardal barcio, cerddwch 100m i'r de i ymyl y gors, lle mae'r coed yn marcio'r ffin. Cadwch olwg am bili-palod ar hyd ymyl y coed a'r prysgwydd.
2. Cerddwch i ffwrdd o'r ffin, tua'r dwyrain-gogledd-ddwyrain, i mewn i'r gors am tua 100m. Yr ardal hon yw un o hoff lecynnau brith y gors.
3. Nesaf, cerddwch tua'r dwyrain-de-ddwyrain am 150m tuag at ymyl y gors unwaith eto. Cadwch olwg am lecyn agored sy'n gorwedd y tu ôl i linell denau o goed. Dyma un o hoff lefydd y brithribin gwyrdd.
4. O'r llecyn agored, cerddwch tua'r gogledd-ddwyrain am 125m nes i'r tir ddechrau gwlychu o dan draed, wrth i chi nesáu at nant fechan. Fe welwch ysgallen y gors yn y fan hon – paradwys y peilliwr.
5. Nesaf, cerddwch i'r gogledd am 50m i ben cribyn. Mae'r trac hwn yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r gors. Dilynwch y trac i'r gorllewin am 375m a byddwch yn ôl yn yr ardal barcio.

Man gorffen: Maes parcio Welshmoor (Cyf. grid SS51924)

Does dim llwybrau wedi'u marcio, ond gallwch ffeindio'ch ffordd yn ddigon hawdd gan ddilyn llinellau'r anifeiliaid sy'n pori yma.

Gall y tir dan draed fod yn eithaf corsiog mewn mannau. Gwisgwch sgidiau cerdded cadarn neu welîs.